Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Papur Bwrdd

12 Gorffennaf 2018

| | |
|---|---|
| **Teitl y papur** | **Adroddiad Cyllid** |
| **Cyfeirnod y papur:** | |
| **Paratowyd y papur gan:** | Rob Bell, Pennaeth Cyllid |
| **Cyflwynwyd y papur gan:** | Rob Bell, Pennaeth Cyllid |
| **Noddwyd y papur gan:** | **Kevin Ingram, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol** |

| | |
|---|---|
| **Diben y papur:** | **Craffu a chymeradwyo** |
| **Argymhelliad:** | **Cymeradwyo:**<br>• Adolygiadau i'r gyllideb ar gyfer 2018–19 yn Chwarter 1<br>**Craffu ar:**<br>• Perfformiad ariannol ar gyfer 2018–19<br>**Sylwer:**<br>• Anfonwyd eitemau at Lywodraeth Cymru i'w cymeradwyo ers y cyfarfod bwrdd diwethaf<br>• Cynnydd o ran cwblhau'r adroddiad a chyfrifon blynyddol ar gyfer 2017–18 |

| | |
|---|---|
| **Effaith:** Sylwer – mae'n bosib nad yw pob pennawd yn berthnasol i'r pwnc | **Edrych ar y <u>tymor hir</u>:**<br>Mae'r papur hwn yn canolbwyntio ar y flwyddyn ariannol flaenorol a'r flwyddyn bresennol; hefyd, mae rheoli cyllid yn gadarn yn elfen |

| | |
|---|---|
| | bwysig o gynllunio ar gyfer y tymor hir.<br><br>**Gweithredu mewn ffordd <u>integredig</u>:**<br><br>**Cynnwys <u>amrywiaeth</u> o'r boblogaeth:**<br><br>**Gweithio mewn ffordd <u>gydweithredol</u>:**<br><br>**<u>Atal</u> materion rhag digwydd:**<br>Mae'r papur hwn yn tynnu sylw at y camau sy'n cael eu gweithredu er mwyn lliniaru pwysau ariannol yn y dyfodol. |

## Mater

1. Gwnaethom adrodd i'r cyfarfod bwrdd diwethaf y sefyllfa ariannol ar gyfer 2017–18, gan nodi nad oedd y ffigyrau terfynol gennym ar y pryd ac y byddai unrhyw newidiadau i'r sefyllfa honno yn cael eu hadrodd i'r bwrdd ym mis Gorffennaf.

2. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r newidiadau i'r cyllidebau yn Chwarter 1 2018–19, a gymeradwywyd gan y Tîm Gweithredol ar 22 Mai 2018.

3. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys canlyniadau hyd at ddiwedd mis Mai 2018. Dylid nodi ein bod yn y broses o ddiweddaru'r holl broffiliau cyllideb erbyn diwedd mis Mehefin, felly mae perfformiad ariannol wedi'i fesur mewn rhai rhannau yn erbyn proffiliau sydd angen eu diweddaru.

## Crynodeb

4. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi bwydo sylwadau yn ôl ar yr adroddiad a chyfrifon blynyddol drafft ar gyfer 2017–18 yn eu cyfarfod ar 7 Mehefin 2018. Disgwylir i'r archwiliad ddod i ben erbyn diwedd mis Mehefin 2018 a bydd fersiwn derfynol yr adroddiad yn cael ei hystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar 13 Gorffennaf 2018, cyn cael ei chyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru. Bydd copi'n cael ei gylchredeg i'r bwrdd ar gyfer sylwadau cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

5. Canlyniad y diweddariad diweddaraf ar yr alldro ariannol ar gyfer 2017–18 yw bod gennym £0.3 miliwn yn llai o gyllid yn cael ei ddwyn ymlaen o 2017–18 i 2018–19. Dyna 0.2% o gyfanswm y gwariant.

6. Mae canlyniadau'r adolygiad i berfformiad y gyllideb wedi cael eu hadrodd i'r Tîm Gweithredol a byddant yn cael eu hadolygu gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar 13 Gorffennaf. Darperir diweddariad i'r bwrdd ym mis Medi. Mae'r adolygiad yn gwneud nifer o argymhellion a fydd yn gwella perfformiad o ran rheoli'r gyllideb dros amser.

7. Gwnaeth y Tîm Gweithredol ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf ar gyfer 2018–19 ynghyd â chynigion pellach heb eu cyllido. Mae'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf yn gweld y cyllid sydd ar gael gennym yn cynyddu o £197.3 miliwn i £220.3 miliwn. Y prif resymau dros y cynnydd yw'r gwelliant yn y farchnad bren (£7.3 miliwn) a chymorth grant ychwanegol ar gyfer cyfalaf llifogydd (£2.9 miliwn).

8. Ar ddiwedd mis Mai, roedd ein hincwm yn £43.8 miliwn o'i gymharu â chyllideb hyd yn hyn o £43.6 miliwn ac roedd ein gwariant yn £23 miliwn o'i gymharu â chyllideb o £23.1 miliwn. Mae proffil y gwariant yn cynyddu'n sylweddol o fis Gorffennaf 2018 ymlaen. Mae rheolwyr cyllideb a phrosiect yn mireinio proffiliau ar hyn o bryd.

9. Mae perfformiad ariannol yn yr adroddiad hwn wedi'i fesur yn erbyn y gyllideb ddiwygiedig a gymeradwywyd gan y Tîm Gweithredol ym mis Mai 2018.

## Asesiad

**<u>Newidiadau i'r gyllideb – Chwarter 1</u>**

10. Mae newidiadau i gyllidebau yn sgil y sefyllfa ariannol ar gyfer 2017–18 yn cael eu crynhoi yn Atodiad A. Mae newidiadau i'r gyllideb yn Chwarter 1 yn cael eu crynhoi yn Atodiad B ac Atodiad C.

11. Mae'r tabl isod yn dangos sut mae'r cyllid a sefyllfa'r gyllideb wedi newid.

*Mae'r holl ffigurau mewn £000*

| Newidiadau i gyllid a chyllidebau | Incwm | Gwariant | Net |
|---|---:|---:|---:|
| Cyllideb wreiddiol | 197.3 | 197.3 | 0 |
| Effaith tanwariant ac incwm ychwanegol blwyddyn ariannol 2017–18 | 5.1 | | 5.1 |
| Cyllid a ddygwyd ymlaen o 2017–18 ar gyfer rhaglenni a phrosiectau penodol (Atodiad A) | 5.1 | 5.1 | 0 |
| Newidiadau i gyllid a chyllidebau yn Chwarter 1 (Atodiad B) | 12.8 | 1 | 11.8 |

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Papur Bwrdd

| | | | |
|---|---|---|---|
| Pwysau heb eu hariannu a gymeradwywyd gan y Tîm Gweithredol yn Chwarter 1 (Atodiad C) | | 6.7 | -6.7 |
| Cynnydd yn y cronfeydd wrth gefn ar gyfer cyllid heb ei ddyrannu | | 10.2 | -10.2 |
| **Cyfanswm** | **220.3** | **220.3** | **0** |

12. Mae ein hincwm ar gyfer 2018–19 wedi cynyddu o £197.3 miliwn i £220.3 miliwn. Mae'r prif newidiadau o ran cyllid yn Chwarter 1 yn ymwneud â'r incwm pren ychwanegol a ragwelwyd (£7.3 miliwn) a chymorth grant ar gyfer ein Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llifogydd (£2.7 miliwn). Mae'r holl gyllid yn Atodiad A (£5.1 miliwn) a pheth o'r cyllid yn Atodiad B (£1 filiwn) yn ymrwymedig i raglenni neu brosiectau penodol. Mae gweddill y cyllid i'w ddyrannu.

13. Gwnaeth y Tîm Gweithredol ystyried a chymeradwyo cynigion a ddaeth i gyfanswm o £6.7 miliwn (Atodiad C) – yn bennaf wedi'u cyllido o gymorth grant a gwerthiannau pren.

14. Roedd gennym £3 miliwn o gyllid eisoes i'w ddyrannu o fewn ein cyllideb wreiddiol. Yn ogystal, bellach mae gennym £10.2 miliwn ar gael i'w ddyrannu, sef cyfanswm o £13.2 miliwn. Mae hyn yn bennaf yn sgil effaith gwerthiannau pren – dros £7 miliwn. Byddwn yn gweithredu'r argymhellion o'r ymateb i archwiliad Cynllun Ansawdd Coetiroedd y Deyrnas Unedig (Cynllun y Gwasanaeth Rheoli Tir) a bydd hynny'n defnyddio peth o'r cyllid hwnnw (caiff y dyraniad yn y flwyddyn ariannol hon ei asesu yn Chwarter 2).

15. Bydd y Tîm Gweithredol yn ystyried strategaethau pellach ar gyfer defnyddio'r cyllid hwn ym mis Gorffennaf ond byddant hefyd yn archwilio'r cyfle i symud cyllid ymlaen i helpu i liniaru heriau ariannol yn 2019–20 a thu hwnt.

## Perfformiad ariannol – Mai 2018

16. Cyfanswm yr incwm oedd £43.8 miliwn, a oedd yn £0.2 miliwn yn fwy na'n cyllideb ddiwygiedig. Mae incwm yn perfformio yn ôl y proffil, sy'n cynnwys yr incwm pren ychwanegol a ragwelwyd o £7.3 miliwn.

17. Roedd y gwariant £0.1 miliwn yn is na'r gyllideb hyd yn hyn. Mae gan reolwyr cyllideb a phrosiect hyd at 22 Mehefin 2018 i ddarparu proffiliau a ddiweddarwyd. Mae'r misoedd nesaf yn dangos cynnydd sylweddol ym mhroffil y gyllideb, a fydd yn heriol a gofyn am reolaeth ariannol dda gan reolwyr cyllideb.

18. Gellir gweld rhagor o fanylion o ran perfformiad diwedd y flwyddyn yn Atodiad D.

Papur Bwrdd

**Cymeradwyaethau ariannol Llywodraeth Cymru**

19. Mae'r tabl isod yn dangos y cymeradwyaethau a gyfeiriwyd at Lywodraeth Cymru ers y cyfarfod bwrdd diwethaf.

| **Eitem** | **Gwerth** | **Disgrifiad** | **Cymeradwyaeth** |
|---|---|---|---|
| Trefniadau pontio ar gyfer contractau hirdymor | - | Gofynnwyd am gymeradwyaeth o ran parhau'r trefniadau pontio mewn perthynas â'u natur wreiddiol, gynhennus a sgil-effeithiol. | Yn aros am gymeradwyaeth |
| Cytundeb prydles – swyddfa Tŷ Cambria | £3,847,500 | Estyniad prydles am ddeng mlynedd ar gyfer swyddfa Tŷ Cambria, Caerdydd | Tynnwyd yr eitem at sylw Llywodraeth Cymru er gwybodaeth yn unig yn unol â'n dogfen fframwaith |
| Rhaglen Cydymffurfiaeth Cronfeydd Dŵr 2018–19 | £3,800,000 | Ceisiwyd cymeradwyaeth i ddechrau ar raglen gwaith cyfalaf ar 22 cronfa ddŵr. Mae'r rhaglen gyfalaf arfaethedig yn angenrheidiol i gydymffurfio â'r ddyletswydd statudol a osodwyd gan Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975. Bydd mesurau yn cael eu cymryd yn benodol er diogelwch. | Yn aros am gymeradwyaeth |

20. Byddwn ni'n ceisio cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer ein cynllun codi ffioedd 2019–20 yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Byddwn ni'n dechrau'r ymgynghoriad ym mis Awst 2018. Un mater sy'n cael ei drafod gyda Dŵr Cymru yw sut y gallwn ni fforddio cost y rhaglen gwella cronfeydd dŵr, a drosglwyddir i ni drwy ein cytundeb cyfreithiol. Mae trafodaethau'n parhau gyda Dŵr Cymru ac maent yn gynhyrchiol – mae'r ddau ohonom yn chwilio am ffordd o ledaenu'r costau dros amserlen hirach. Fel mewn blynyddoedd cynt, rydym yn bwriadu trafod a chytuno ar yr ymgynghoriad ar godi ffioedd gydag Is-grŵp Codi Ffioedd y bwrdd, a fydd yn cyfarfod ar 7 Awst 2018.

**Cymeradwyaeth y bwrdd**

21. Yn ei gyfarfod diwethaf, gwnaeth y bwrdd roi awdurdod dirprwyedig i is-grŵp ar gyfer adolygu a chymeradwyo'r contract peirianwaith gyda'r Pennaeth Caffael. Dylai'r is-

grŵp ymgynnull cyn y cyfarfod bwrdd nesaf a bydd diweddariad yn cael ei roi ar lafar yn y cyfarfod.

## Argymhellion

22. Gofynnir i'r bwrdd wneud y canlynol:

**Cymeradwyo:**

- Adolygiadau i'r gyllideb ar gyfer 2018–19 yn Chwarter 1

**Craffu ar:**

- Perfformiad ariannol ar gyfer 2018–19

**Sylwer:**

- Anfonwyd eitemau at Lywodraeth Cymru i'w cymeradwyo ers y cyfarfod bwrdd diwethaf
- Cynnydd o ran cwblhau'r adroddiad a chyfrifon blynyddol ar gyfer 2017–18

## Risgiau allweddol

21. Yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, gwnaethom danwario ac mae'r arwyddion cynnar yn dangos y byddwn ni'n ei weld yn heriol defnyddio ein cyllideb o fewn y flwyddyn ariannol hon mewn sawl maes allweddol.

## Goblygiadau ariannol

23. Mae'r papur yn ymwneud â sefyllfa ariannol a pherfformiad Cyfoeth Naturiol Cymru. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol yn codi ar wahân i'r amser a dreuliwyd wrth greu'r ddogfen hon.

## Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

24. Nid oes angen cynnal un.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Papur Bwrdd

## Atodiadau

Atodiad A Effaith alldro blwyddyn ariannol 2017–18 ar gyllidebau 2018–19

Atodiad B Newidiadau i gyllideb Chwarter 1 2018–19

Atodiad C Pwysau heb eu hariannu a gymeradwywyd gan y Tîm Gweithredol ar gyfer 2018–19

Atodiad D Adroddiad ar berfformiad ariannol hyd at fis Mai 2018

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Papur Bwrdd

**Atodiad A – Cyllidebau a ddygwyd ymlaen o 2017–18**

| **Cyllideb** | **Gwerth £000** |
|---|---|
| **Ymrwymiadau cyfalaf** | |
| Rhaglen Gyfalaf Adnoddau Dŵr | 611 |
| Rhaglen Gyfalaf Llifogydd | 502 |
| Cloddfeydd metel | 447 |
| Prynu offer labordy Cyfarwyddeb Safonau Ansawdd Amgylcheddol | 430 |
| Cydymffurfiaeth cronfeydd dŵr | 272 |
| Datblygiadau TGCh morol | 200 |
| Cynllun clirio coed BETWS | 121 |
| 13 prosiect arall (manylion ar gael os oes eu hangen) | 517 |
| **Cyfanswm** | **3,300** |
| **Ymrwymiadau refeniw (ariannwyd gan Lywodraeth Cymru)** | |
| Ymgorffori rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy | 366 |
| *P. ramorum* | 182 |
| Cydymffurfiaeth cronfeydd dŵr | 95 |
| Llwybr Arfordir Cymru | 84 |
| Cydymffurfiaeth Parthau Perygl Nitradau | 80 |
| Carbon Bositif | 75 |
| Taclo Tipio Cymru | 73 |
| 11 prosiect arall (manylion ar gael os oes eu hangen) | 320 |
| **Cyfanswm** | **1,275** |
| **Ymrwymiadau refeniw eraill** | |
| Cynllun y sefydliad | 196 |
| Gweddillebau Comisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr | 169 |
| Mesurau lliniaru amgen Afon Dyfrdwy | 91 |
| Cyforgorsydd Cymru | 78 |
| 7 prosiect arall (manylion ar gael os oes eu hangen) | 200 |
| **Cyfanswm** | **734** |
| **Cyfanswm** | **5,108** |

# Papur Bwrdd

**Atodiad B – Newidiadau cyllideb – Chwarter 1 2018–19**

Mae'r holl ffigurau mewn £000

| Cyllideb | Incwm | Gwariant | Net |
|---|---|---|---|
| **Newidiadau i'r gyllideb incwm** | | | |
| Incwm masnachol ac arall – incwm pren | 7,300 | | 7,300 |
| Incwm masnachol ac arall – ffrydiau incwm eraill | 570 | | 570 |
| Strategaeth Llety | 346 | | 346 |
| Incwm o godi ffioedd – Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol | 190 | | 190 |
| Incwm o godi ffioedd – arall (trwyddedu morol yn bennaf) | -617 | | -617 |
| Incwm o godi ffioedd – adnoddau dŵr | -116 | | -116 |
| Newidiadau eraill | -48 | | -48 |
| **Cyfanswm** | **7,625** | | **7,625** |
| **Newidiadau i'r gyllideb gwariant** | | | |
| Cyfraniad Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | | -3,700 | 3,700 |
| Cytundebau lefel gwasanaeth (gyda chyrff etifeddol) | | 64 | -64 |
| Costau rhentu'r fflyd a cherbydau | | -307 | 307 |
| Balansau gweithgareddau codi ffioedd | | -192 | 192 |
| Strategaeth Llety | | -200 | 200 |
| Cloddfeydd metel | | -100 | 100 |
| Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Buddsoddi i Arbed | | 62 | -62 |
| Symud Labordy Abertawe – buddsoddiad ychwanegol | | 132 | -132 |
| Costau rhedeg Pen-y-fai tan iddo gael ei werthu | | 50 | -50 |
| Newidiadau eraill | | -26 | 26 |
| **Cyfanswm** | | **-4,217** | **4,217** |
| **Newidiadau mewn incwm a gwariant** | | | |
| Cyfalaf llifogydd | 2,660 | 2,660 | 0 |
| Tir halogedig – Cynlluniau Frongoch a Chwm Rheidol | 203 | 203 | 0 |
| Deddf Enillion Troseddau – clirio Nant-y-glo | 112 | 112 | 0 |
| Cronfeydd pysgod – Ynysowen | 150 | 150 | 0 |
| Cronfeydd pysgod – mesurau lliniaru amgen Afon Taf | 55 | 55 | 0 |
| Cynllun Datblygu Gwledig – Glastir | 512 | 512 | 0 |
| Prosiect LIFE ar gyfer Cyforgorsydd Cymru | 567 | 530 | 37 |
| Prosiect LIFE Mwsoglau'r Gororau | 44 | 58 | -14 |
| Coed y Brenin – cynnydd mewn gwerthiannau a chost gwerthiannau | 88 | 110 | -22 |
| Nant yr Arian – cynnydd mewn gwerthiannau a chost gwerthiannau | 38 | 40 | -2 |
| Cyflenwi ynni – ffioedd opsiwn | 269 | 269 | 0 |
| Wylfa | 384 | 384 | 0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Prosiect a ariannwyd yn allanol gan y DCF | 28 | 34 | -6 |
| Newidiadau eraill | 53 | 51 | 2 |
| **Cyfanswm** | **5,164** | **5,169** | **-5** |
| **Cyfanswm** | **12,789** | **952** | **11,837** |

**Atodiad C – Pwysau heb eu hariannu y cytunwyd arnynt**

| **Cyllideb** | **Gwerth £000** |
|---|---|
| **Pwysau gweithredol cyffredinol** | |
| Blaenoriaethau tystiolaeth | 526 |
| Diweddariad ar gontract MyNRW | 31 |
| Gweithrediadau'r De – prosiectau bach | 50 |
| Gweithrediadau'r Gogledd a'r Canolbarth – prosiectau bach | 120 |
| Cored Merthyr | 150 |
| Arwyddion ar dir CNC | 80 |
| Strategaeth Ddigidol | 100 |
| Cronfeydd data / prosesu / mannau storio pyllau elastig Microsoft | 50 |
| Rocedi – offer labordy | 70 |
| Cynlluniau adfer afonydd | 140 |
| Ffyrdd newydd o weithio: rheoli gwybodaeth ac adrodd | 45 |
| Cyflenwi ein rhaglen tôn llais | 40 |
| Ôl-gerbydau ffordd y fflyd | 50 |
| Telemateg y fflyd | 132 |
| Maes parcio Bwcle | 40 |
| To storfa Bwcle | 31 |
| Biosffer Dyfi | 81 |
| Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol | 300 |
| Deciau Bwlch Nant yr Arian | 45 |
| Adnewyddu wal a oedd yn cwympo gerllaw Swyddfa Hafod | 42 |
| Cyflenwi ffocws cwsmeriaid | 270 |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus) | 150 |
| Ailosod asedau CNC | 290 |
| Systemau Draenio Cynaliadwy Trefol | 50 |
| Adroddiad Cwmpasu Amgylcheddol Strategol ar gyfer y Gyfarwyddeb Fframwaith | 10 |

# Papur Bwrdd

| | |
|---|---|
| Dŵr | 12 |
| Dadansoddiad Arolwg Cenedlaethol | |
| **Pwysau TGCh penodol** | |
| Datblygu ac arloesi TGCh – cyllid ychwanegol ar gyfer y rhaglen | 1,039 |
| Gwelliannau rheoleiddiol TGCh | 230 |
| Diweddariad Windows 10 – caledwedd | 300 |
| Cynigion busnes fel arfer TGCh – amrywiol | 214 |
| **Pwysau yn ymwneud â choedwigaeth – wedi'u hariannu gan werthiannau pren** | 2,000 |
| Seilwaith coedwigaeth | 100 |
| TGCh – pecyn marchnata pren | |
| **Cyfanswm** | **6,788** |